

Darlunio Bryniau Clwyd

AM DDIM

Heb feic heb fyw
Stori un sy'n dechrau

Tafarn Sy'n Estyn
Croeso i Gerddwr

Yr Hanes a'r
Trysorau Cudd

cynnwys

3 Croeso i 'Darlunio Bryniau Clwyd'

4 Ble rydym ni?

5 Yr Hanes a'r Trysorau Cudd

6 Cymerwch bwyll

8 Bore anghyffredin o wanwyn ym
mywyd y warden cefn gwlad

10 Fy hoff olygfa • Bywyd Cymreig ar Ardal

13 Colomendy 1959

14 Heb feic heb fyw.....

16 Tirwedd i'ch ysbrydoli

17 Gofyn i'r Warden

18 Tafarnau sy'n croesawu cerddwyr



*“Un o dirweddau gorau Pryda
Rydym yn gobeithio y byddwch wrth eich bodd
yn ei gael yn arweinlyfr diddorol, addysgiadol
ymweliadau yn y dyfodol.”*



Croeso i 'Darlunio Bryniau Clwyd'



*in yw Bryniau Clwyd.
gyda rhifyn cyntaf 'Darganfod Bryniau Clwyd' ac
ac angenrheidiol ar gyfer cynllunio eich*

Hugh Evans, Cadeirydd Cydbwyllgor Bryniau Clwyd AHNE



Yn yr arweinlyfr hwn ceir darluniau mewn geiriau o Fryniau Clwyd gan y bobl sy'n gweithio yma, yn byw yma, neu'n ymweld â'r ardal hardd hon. Casglwyd y ffeithiau, y ffotograffau, y disgrifiadau a'r erthyglau at ei gilydd i ffurfio 'Darlunio Bryniau Clwyd' er mwyn meithrin eich gwerthfawrogiad o'r ardal a rhoi rhesymau ichi ymweld â hi. Mae popeth yma ichi eu mwynhau: antur, troeon hamddenol, golygfeydd syfrdanol a chrefftau traddodiadol.

Cafodd yr ardal ei dynodi'n Ardal o Heddwch Naturiol Eithriadol yn 1985. O'r pump AHNE yng Nghymru hon yw'r ardal ddiweddaraf i dderbyn y dynodiad hwnnw. Ynghyd â'r tri Pharc Cenedlaethol y rhain yw'r unig dirweddau sy'n cael eu gwarchod yn ôl y ddeddf yng Nghymru.

Ymestynna Bryniau Clwyd o dref glan y môr Prestatyn yn y Gogledd i ddyffryn coediog Nant y Garth ger Llandegla yn y de. Y man uchaf yw Moel Famau, gyda Thwr y Jiwili ar ei phen, sy'n 554 metr uwchben lefel y môr.

Nodwedd amlycaf y dirwedd yw'r rhostiroedd, bryniau o flodau'r grug porffor, a'r cymoedd a'r clogwyni calchfaen. Gallwch fwynhau'r golygfeydd syfrdanol o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa sy'n rhedeg ar hyd cefn y Bryniau.

Yng nghanol yr AHNE saif pentref Loggerheads a Pharc Gwledig Moel Famau. Mae yma nifer enfawr o weithgareddau i'r ymwelwyr eu mwynhau. Gallwch gael mwy o wybodaeth o'r Ganolfan Cefn Gwlad yn Loggerheads.

Gobeithio y byddwch wrth eich bodd gyda'r arweiniad hwn, ac yn llwyddo i greu eich darlun personol eich hunan o Fryniau Clwyd.

Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE
David Shiel, Swyddog Cynorthwyol AHNE
Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
Parc Gwledig Loggerheads,
Ger yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH
☎ 01352 810614
E-bostl: clwydianrangeAHNE@denbighshire.gov.uk

www.clwydianrangeaonb.org.uk
www.denbighshire.gov.uk/countryside
www.ridetheclwyds.com
www.loggerheads-wales.co.uk

Eiddo'r cyfranwyr yn unig yw'r farn a fynegir ganddynt. Nid yw Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wallau nag esgeulustod.



ble rydym ni?



Teithiwch ar y bws
yn Sir Ddinbych
a helpu i leihau
llygredd!



Grŵp Cludo Teithwyr,
Cyngor Sir Ddinbych,

Caledfryn, Ffordd y Ffair,
Ddinbych, Sir Ddinbych, LL16 3RJ.



01824 706968

www.denbighshire.gov.uk/highways

CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



Llwybr Clawdd Offa

Ardal o Harddwch Naturiol
Eithriadol Bryniau Clwyd



Ardal o Harddwch
Naturiol Eithriadol (AHNE)



Cyn 10,000 o flynyddoedd yn ôl Palaeolithig/yr Hen Oes Gerrig

Dyma'r oes pan roedd pobl yn helwyr gan deithio o le i le i ddilyn symudiadau tymhorol yr anifeiliaid. Mae offer ac esgyrn anifeiliaid. (Hiena, Rhinoseros, Llew, Arth, Ceffyl, Llwynog, Carw) wedi'u darganfod yn yr ogofeydd calchfaen yng Nghae Gwyn a Ffynnon Beuno, Tremeirchion



2000 o flynyddoedd yn ôl Yr Oes Rufeinig

Datblygodd yr 20fed Leng, a leolwyd yng Nghaer, anheddiad bychan ym Mhrestatyn ar gyfer cloddio am blwm gan adael tystiolaeth ar eu hôl - fel y Baddondy. Efallai eu bod yn cloddio am blwm tua'r de yn Nyffryn yr Afon Alun hefyd, ac mae rhai awgrymiadau bod ffordd Rufeinig yn croesi'r Bryniau ym Mwlich Pen Baras (Moel Famau) gan anelu am yr anheddiad Rhufeinig yn Rhuthun. Dyfalu yn unig y gallwn am farn pobl y bryngegyrdd cyfagos am y Rhufeiniaid, ond cafwyd arian mân a chrochenwaith yno.



Yr Hanes

a'r Trysorau Cudd

10,000 o flynyddoedd yn ôl Mesolithig/yr Oes Gerrig Ganol

Mae'n debyg mai mewn gwersylloedd symudol o dymor i dymor roedd y rhai oedd yn casglu a hela'n aros. Roeddent yn defnyddio offer ysgafn a chain a wnaed o fflint ac o siert i wneud pethau defnyddiol fel gwaywffyn a bachau pysgota. Ychydig o olion adawsant ar Fryniau Clwyd, ac eithrio ychydig o offer mewn lleoedd fel Plas Mia ac efallai yn rhan o gladdfa mewn ogof ger Llanarmon.

6000 o flynyddoedd yn ôl Neolithig Yr Oes Gerrig Newydd

Dechreuodd pobl ffermio yn lle hela gan ddefnyddio offer gwahanol fel y bwyell cerrig gloyw o Benmaenmawr. Mae'n debyg mai i glirio coed y defnyddid y rhain i wneud caeau ar gyfer tyfu cynydau a chadw anifeiliaid. Ar y Gop mae tomen cynhanes fwyaf y Deyrnas Unedig. Efallai iddi gael ei chodi yr adeg hon i nodi claddfeydd mewn ogofeydd ar y llethr islaw.

4000 o flynyddoedd yn ôl Yr Oes Efydd

Erbyn hyn roedd pobl yn ffermio'n fedrus, gan glirio tir ar gyfer gwneud caeau, a chlirio'r coed o ben y bryniau. Roeddent wedi dysgu sut i smeltio metel, copr yn gyntaf ac wedyn efydd. Ychydig a wyddom am y bobl a fu'n byw ar Fryniau Clwyd bryd hyn, ond rydym yn gwybod llawer am beth oedd yn digwydd pan roeddynt yn marw. Yn y tomenni bach, sy'n cael eu galw'n 'tumulus' ar fapiau mae claddfeydd a chorfflosgiadau. Maent i'w cael ar hyd a lled y Bryniau, yn enwedig ar ben Moel y Parc a Moel Eithinen.

2700 o flynyddoedd yn ôl Yr Oes Haearn

Erbyn 700BC, roedd pobl wedi dysgu sut i wneud offer o haearn yn ogystal ag o efydd a cherrig. Yn annhebyg i Oes yr Efydd, ychydig a wyddom am farw'r bobl hyn, ond mae llawer o dystiolaeth am ble roeddynt yn byw. Yn ôl olion chwe bryngaer enwog ar Fryniau Clwyd roedd angen adeiladu amddiffnyfeydd cadarn yn gartrefi - pam? Efallai bod y tywydd yn oerach ac yn wlypach, ac roedd angen gwellt cysgod. Neu efallai bod grym a hierarchaeth yn rhan o'u bywyd. Mae nodweddion amlwg iawn y bryngegyrdd yn amlwg hyd heddiw.



■ Fiona Gale, Archaeolegydd y Sir

1500 o flynyddoedd yn ôl Y Canol Oesoedd

Ar ôl i'r Rhufeiniaid gilio draw, daeth y Canol Oesoedd. O'r 11eg ganrif ymlaen roedd Bryniau Clwyd yn ffin naturiol rhwng ardaloedd mwy Seisnig eu dylanwad tua'r dwyrain a mwy Cymreig tua'r gorllewin.

Dechreuodd patrwm yr eglwysi sydd ohoni heddiw ledw y Bryniau. Mae eglwysi nodweddiadol â dau gorff eglwys ynddynt fel yn Llanarmon, Llandyrnog, Llangynhafal a Chilcain yn rhai cyntaf i'w sefydlu, ond mae rhai sy'n symlach hefyd fel yr eglwys fach adfeiliedig yn Llanbedr.

O ddiwedd yr 13ganrif, i ddechrau'r 20fed eiddo Castell Rhuthun oedd ardal eang yng nghanol Bryniau Clwyd. Ffermwyr a masnachwyr fyddai'n arfer defnyddio llawer o'r llwybrau drwy'r Bryniau.



150 o flynyddoedd yn ôl Yr Oes Ddiwydiannol

Bu'r Chwyldro Diwydiannol yn ddylanwad mawr ar y dirwedd. Yn ystod y 18fed a'r 19fed ganrif datblygodd cloddfeydd plwm yn ardaloedd calchfaen Bryn Prestatyn, Dyserth a Dyffryn yr

Alun. Dyma fro oedd yn ferw o bobl, sŵn, llygredd a chynhyrchu. Am gyfnod byr fe gloddiwyd am aur yn ymyl Cilcain ond ni fu yma ddigon i wneud ffortiwn i unrhyw un.

Bu pobl wrthi'n chwarella fyth ers iddynt ddechrau codi tai cerrig a ffiniau caeau, ac mae chwarella'n parhau hyd heddiw. Dinistriwyd rhannau mawr o Foel Hiraddug, bryngaer oes yr haearn, yn y gogledd gan chwarella a chloddfeydd Cobalt. Cloddiwyd am haearn ym Mryniau Clwyd, ym Modfari a Marian Cwm. Defnyddiwyd injan stem yn y diwydiannau hyn, ond roedd pŵer dwr yn hanfodol hefyd. Mae llwybr poblogaidd y Leete o Barc Gwledig Loggerheads yn dilyn sianel sy'n 3 milltir o hyd. Roedd hwn yn cyrchu dŵr o'r Afon Alun i yrru'r mwyngloddiau yn Rhyd-y-mwyn.



1985

Dynodir Bryniau Clwyd yn ardal o Harddwch

Naturiol Eithriadol, ynghyd ag Arfordir Môn, Penrhyn Llyn, penrhyn Gwyr, Dyffryn yr Afon Wy a'r tri pharc cenedlaethol, Eryri, Arfordir Sir Benfro, Bannau Brycheiniog yn dirweddau gorau Cymru.

Cymerwch bwyll ac ewch yn ôl at natur

Dydw i ddim yn gerddwr brwd y teithiau pell, felly mae lleoedd fel Parc Gwledig Loggerheads wrth fy modd.

Cewch eich cyfarch i ddechrau gan olygfa o Foel Famau wrth ddynesu at giât y Parc. Mae harddwch eithriadol y dirwedd yn eich taro ar unwaith, a'r creigiau calch bygythiol.

Yr Hydref yw fy hoff adeg o'r flwyddyn, ac ar bawn braf ym mis Hydref mae'n wych cael y cyfle i ysgrifennu am y daith rwyf am ei chychwyn.

Mae'r dail yn disgyn yn gawod gyflym a'r gwynnau yn creu haen greisionllyd o dan draed. Clywaf yr Afon Alun yn byrlymu wrth lifeirio o dan y bont gan gyflymu ar ei ffordd tua'r môr. Erbyn hyn mae hi'n afon sy'n rhy ddwfn a rhy gyflym i ddiflannu o dan y garreg galch fel y gwna hi bob haf.

Ni chlywaf unrhyw sŵn arall am fod llafar y dŵr yn uwch nag unrhyw sŵn arall, a finnau mewn rhyw gyflwr breuddwydiol synfyryol. Ar yr ochr arall, bydd y creigiau calchfaen yn codi tua'r coed ac yna bydd llethr llai y tu draw. Ychydig o olau sydd yma, oherwydd y ffawydd tal, ac mae llawr y goedwig yn noeth o blanhigion; brigadau o galch llwyd yn unig sydd i'w gweld yma ac acw.

Wrth imi gerdded oddi wrth y tro yn yr afon, bydd ei sŵn yn tawelu a chanu adar a lleisiau plant yn cyrraedd fy nghlustiau. Mae'r olion sydd yma yn fy atgoffa o'r diwydiant a fu, pan nad oedd yma lawer o goed a phan fyddai bechgyn a dynion yn ennill eu tamaid drwy dreulio'r golau dydd yn crafu'r plwm yn y twneli tanddaearol.

Un o'r pethau rwy'n ei hoffi ynghylch dychwelyd i'r ardal hon yw cyfeillgarwch y bobl. Gan fy mod yn byw mewn ardal drefol erbyn hyn, mae'n dda cael dieithriaid yn fy nghyfarch. Tybed ydy prysurdeb ein bywydau yn dinistrio'r cyfle i rannu munud gyda dieithriaid?

Symudaf o'r afon. Mae dringo yn ymarfer da i'r ysgyfaint. Er bod yma nifer o leoedd i stopio, camaf i fyny'r grisiau, a bydd dim angen mynd i'r gamfa i golli pwysau.



Dilynaf y wal gerrig a adferwyd yn ofalus. Mae'r ffawydd yn dal fy sylw. Nid yw ffawydd yn goed brodorol i'r ardal hon, ond mae'r lliwiau o wyrdd, brown, coch melyn yn golygu y gallaf faddau hynny. Lithra haul hydref yn ddioglyd drwy'r coed gan ddangos cip cyntaf ar Foel Famau. Ar ben y creigiau, mae'r coed yn noethach, gan adael dail ar lawr y goedwig imi'u casglu i wneud cardiau Nadolig.

Efallai mai'r olygfan gyntaf fydd yr unig un ar y daith hon. Mae canghennau'r ffawydd yn ffrâm i'r machlud i'r gorllewin, ac mae'r clytwaith o rostir grug a phlanhigfeydd conifer yn nodi Moel Famau gyda Thwr y Jiwbiâl ar y copa.





Dyma swŵn cyfarth a rhochian yn tynnu fy sylw, a finnau wrth fy modd i weld brain yn mopio tri bwncath. Golygfa ryfeddol. Erbyn rwy'n cyrraedd y lle gwag ar ben y creigiau mae'r adar wedi hedfan i osgoi fy nghamera brwd.


Eisteddaf ar frigiad o galchfaen. Gwelaf adeiladau Colomendy, pensaernïaeth od tafaen 'We three Loggerheads' â dros y gerddi te ac i fyny i gopa gwych Moel Famau. Dyma un o olygfeydd gorau a mwyaf ymlaciol erioed. Mae ffurf yn ddiddorol iawn imi, a sylwaf ar y canopi o goed i lawr y llethr, dyma fy hoff liwiau yn garped sy'n denu fy mysedd i'w gyffwrdd.

Ar y palmant calchfaen, mae perlysiâu a mwsogl yn aroglï fy llwybr i ran hudolus y coniferau sy yn y Parc.

Mae arogl y pin a dail gwlyb o dan fy nhraed yn ymlacio - a cherdded i lawr y bryn.

Dyma ddrysfa o goed, yn clymu yn ei gilydd fel petaent yn sgwrsio..gan danio'r dychymyg...

Yn ôl i'r darn olaf, ac i lawr y darn serth i'r afon. Canolbwyntiaf ar ddisgyn ac mae fy nghoesau'n hoffi ymestyn.



Dyma'r bont unwaith eto. Fy ngwobr yw cipolwg ar fronwen y dŵn ar garreg yng nghanol llifeiriant cyflwm yr afon, ei ben yn symud i rythmau rhyw don gyfrinachol.

Yn ôl i'r caffi i fwynhau paned o siocled poeth. Edrychaf tua'r creigiau a theimlo fy mod wedi cyflawni camp. Yn ôl y cloc ar y twr yn y Ganolfan Cefn Gwlad, awr a hanner yn unig gymerodd y daith wych hon i fyd natur, sy'n syndod imi. A gallaf ei gael i gyd am bris parcio, siocled poeth ac amser i mi fy hun. Mae pawb yn haeddu hyn.

■ Vanessa Cooke





Bore anghyffredin o mywyd y warden ce

Pan fo'r rhan fwyaf o bobl gall yn gynnes yn eu gwelyau, meddylwch am funud am y Wardeniaid Cefn Gwlad sy'n gorfod, yr adeg yma o'r flwyddyn, godi'n gynnar fore ar ôl bore i gyfrif y rugiar ddu.

03:33 Deffro drwy gael cic gan y partner cariadus ar flaen fy nghoes gan fy atgoffa i godi a throï'r niwsans o larwm i ffwrdd.

03:55 Ar ôl mwg o goffi du, cryf mae'r niwl yn cillo, y pen yn teimlo'n well a dyma finnau'n ei chychwyn hi am Foel Famau.

04:30 Cyrraedd Maes Parcio'r Goedwig â Moel Famau, ac er imi gychwyn yn gynnar mae nifer go lew o staff ac o wirfoddolwyr yma o fy mlaen. Mae'n cymryd amser cyn imi allu adnabod pawb yn y tywyllwch a hwythau â'r golau lamp ar eu pennau. -

pawb yn edrych ychydig yn frawychus ac yn dawel yn y bore cynnar. Dyma ni'n ymrannu'n grwpiau bach ac yn gwasgaru ar hyd a lled Moel Famau i gyfrif celliogod y rugiar ddu sy'n ymgynnull ar yr amser yma o'r flwyddyn mewn lle cynnau - darnau o dir ble maent yn arddangos ac yn cynnal y ddefod garwriaeth. Dyma gloi blynyddoedd o waith ar y rhostir grug a choedwig Moel Famau. Bu cymaint o ostyngiad yn niferoedd y rugiar ddu yn y 1990au nes inni bryderu'n wirioneddol nad oeddynt yn mynd i oroesi yng Nghymru o gwbl. Daeth nifer o sefydliadau at ei gilydd, gan gynnwys RSBP a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, mewn ymdrech i'w gwarchod ac o ganlyniad daeth tro ar eu byd. Gwnaed gwaith aruthrol i wella'r cynefinoedd allweddol â gan gynnwys Moel Famau. Wrth imi eistedd yn y tywyllwch wrth ymyl y goedwig meddyliaf am y





wanwyn ym fn gwlad

gwaith a wnaed yma eleni - llosgi grug dros y gaeaf a'r gwirfoddolwyr yn torri grug gyda fframwr lleol. Daeth tri grŵp o ysgolion i'n helpu i blannu 300 o goed llydanddail yn union y tu mewn i'r goedwig ac i glirio coed yn llwyr y tu isaf i le rydw i'n eistedd ar hyn o bryd. Tybed sut mae'r coed yma'n datblygu? Rydw i'n cofio archwilio'r ardal yng Ngorffennaf gyda chŵn sbaniel a dod o hyd i iâr (iâr lwyd) wedi nythu heb fod yn bell o'r fan lle rydw i'n eistedd rŵan a magu tri o gywion. Petaent wedi goroesi'r gaeaf efallai y gwelaf i nhw eto ar y llecynnau arddangos.

05:30 Bore bendigedig! Y lleud lawn yn diffodd am noson arall a dyma'r haul fel melyn wy yn datgelu Dyffryn Clwyd dan gwsg, adar y rhostir a'r goedwig yn deffro a dechrau pyncio Cŵn y Wawr. Drwy'r holl sŵn gallwn glywed ffrwtian llifeiriol llais y rugiar ddu. Er mwyn peidio ymyrryd â'r adar, awn ar ein pedwar i rywle y gallwn eu gweld a gwylio tri o geiliogod yn dawnsio o fewn y llecyn mewn ymgais i ddenu Mrs Grugiar Ddu.

07:30 Pawb yn dod yn ôl i'r maes parcio gyda'n darganfyddiadau. Mae hyn yn debyg i sgôr y bêl droed yn

cyrraedd - 4 ar y man gogleddol, un llai na'r llynedd â - pump ar y man deheuol, dau i fyny ar y llynedd.... Ac felly ymlaen nes i bawb ddychwelyd i'r maes parcio. Eleni, cofnodwyd 13 o geiliogod y rugiar ddu, dau yn fwy na'r llynedd. Mae rhai o leiaf o'r cywion wedi goroesi'r gaeaf. Efallai bod y nifer hwn yn isel iawn ond pan ystyriwch mai 220 o barau yw poblogaeth y rugiar ddu hon yng Nghymru gyfan mae'n dangos, nid yn unig pa mor brin yw'r aderyn hwn, ond hefyd pa mor bwysig yw eu monitro er mwyn diogelu eu dyfodol.

08:00 'Mae boliau gwag yn hyrwyddo'r economi leol', meddwn innau wrth inni ymlwybro tuag at anferth o frechwast yng nghaffi Loggerheads. Dylai hwn fy nghynnal i am weddill y diwrnod.

09:00 Yn ôl yn y swyddfa, a finnau wrthi eto'n ateb galwadau ffôn a negesau e-bost ...a sylweddoli fy mod wedi'r cyfan yn byw yn yr unfed ganrif ar hugain a bod yr hen gyfrifiaduron wedi dal i fyny efo ni'r wardeniaid sy'n hoffi osgoi'r swyddfa.

10.00 Ar ôl llwyddo yn y frwydr yn erbyn cwsg, i ffwrdd â ni i Warchodfa Natur Leol Moel Findeg, i gymryd rhan yn y cynllun rheoli coedlannau sy'n digwydd ar hyn o bryd. Rydym yn tocio rhai coed bedwen arian ar ôl eu dewis, ac yn cael cymorth Cyfeillion Moel Findeg sy'n tynnu'r damau mawr o goed i'w gwerthu'n goed tan. Caiff y pres a godwyd o'r cynllun hwn ei dywallt yn ôl i gronfa rheoli'r safle hwn.

13.30 Yn ôl i'r swyddfa a minnau, a'r diwrnod yn dechrau prysuro. Rhaid mynd ati i baratoi arddangosfa sleidiau i'w cyflwyno gerbron Cymdeithas Garddio Llanferres nos yfory.

Ar ôl deuddeg awr rydw i gartref o'r diwedd... ac yn dechrau gweld rhithiau! A finnau'n syrthio'n araf i gwsg mae'r tair cath yn cytuno ei bod hi'n amser swper ac yn fy atgoffa am hynny drwy ddefnyddio fy wyneb fel trampolin. Yn ffodus, ar ôl cael eu bodloni â mae cwsg yn cael gafael yn of finnau.....ZZZZZZZZZZZZ

Ffoniwch i gael gwybod sut i helpu i reoli'r Rugiar Ddu ☎ 01352 810614

■ Rhun Jones



Fy Hoff Olygfa



Bywyd Cymreig

Ar un adeg, Clawdd Offa oedd y ffin rhwng Lloegr a Chymru ar ochr ddwyreiniol yr AHNE, felly mae nifer o'r pentrefi yn yr ardal hon yn bentrefi'r gororau. Ond tan yn gymharol ddiweddar y Gymraeg oedd iaith yr ardal ar y cyfan, ac ymhob un o bentrefi'r AHNE gallwch weld olion yr iaith a'r diwylliant.

Ym mhentref Cilcain, cynhelir Gŵyl ddwyieithog bob blwyddyn ym mis Hydref a cheir yma ddigwyddiadau sydd o safon uchel iawn yn gerddorol - y traddodiadol a'r cyfoes. Perin Clement yw arweinydd Côr Cilcain sydd yn canu yn y Gymraeg, Saesneg a nifer fawr o ieithoedd eraill Ewrop.



Ceir gwasanaethau Cymraeg mewn nifer o'r capeli a'r eglwysi. Pan ddowch i ymweld â'r ardal byddwch yn sylwi bod enwau Cymraeg ar nifer o'r strydoedd a'r tai. Caiff yr iaith Gymraeg ei dysgu ymhob ysgol y llywodraeth, a'r nod yw creu cenhedlaeth o blant dwyieithog. I'r plant â'r Gymraeg yn famiaith iddynt, mae nifer o ysgolion cyfrwng y Gymraeg yn yr AHNE sy'n bwydo ysgolion yn yr Wyddgrug, Llanelwy, Wrecsam a Rhuthun. Bydd llawer o rieni Di-Gymraeg yn dewis anfon eu plant i'r ysgolion hyn.

Yn y Dderwen, Hendre, ceir canu i gyfeiliant organ ar nos Sadwrn yn rheolaidd, gallwch ymuno i ganu o lyfryn dwyieithog sy'n cael ei ddarparu gan y tafarnwr. Gwahoddur awadwyr i'r noson yn aml, i'ch diddori yn y Gymraeg, ac estynnir croeso twymgalon i ddysgwyr yr iaith gan gynnal gemau, helpa drysor a chwisiau i feithrin eu hyder a'u hysgogi i ddefnyddio'r iaith. Yn nifer o bentrefi'r AHNE caiff dosbarthiadau eu cynnal yn wythnosol gydag athrawon profiadol yn arwain y dosbarth. Mewn tafarnau eraill, fel Graigfechan, cynhelir nosweithiau i groesawu'r dysgwyr, a nosweithiau o ganu ac o adloniant yn y Gymraeg.

Huw Rees

Roedd rhagolygon y tywydd yn darogan glaw wrth imi frasgamu o'r gilfan yn Llanferres tuag at fy hoff Foel ar Fryniau Clwyd - y cymylau tywyll, isel, yn dechrau crynhoi'n fygythiol. Ond a dweud y gwir, ychydig iawn o drafferth fyddai'r tywydd imi. Roeddwn am wneud beth roeddwn wedi'i wneud sawl tro o'r blaen - dringo Bryn Alun i gael cip ar fy hoff olygfa ar Fryniau Clwyd. Yn wir, mae'r profiad (a'r ymarfer corfforol) yn iachusol dros ben, a hyd yn oed yn feddyginiaethol. Profais ei fod yn gallu llacio straen, ymlacio, bod yn gyfle i synfyfrio ac i feddwl. Er mai ar fy mhen fy hun roeddwn yn cerdded y tro hwn, bu'n gyfle yn y gorffennol i drafod ac i ddod i benderfyniadau wrth gydgerdded gyda fy ngwraig ac i drafod y newyddion a'r clecs diweddaraf gyda ffrindiau a pherthnasau.

Wrth imi gychwyn ar i fyny o'r llwybr ac i'r darren galchfaen, cefais fy nharo gan y syniad nad 'mynd am dro' roeddwn i, nid 'mynd' yw taith sy'n gyfarwydd ichi. Rydych chi'n gwybod yn union i ble rydych chi'n mynd. Nid oes rhaid darganfod y llwybr, na defnyddio map. Rydym yn gwybod yn union beth fydd rownd y gomel nesaf. Na, nid 'mynd' ond rhywbeth arall - fel y newid yn y tymhorau, manylion y byd o'n cwmpas, sylwadau a barn ein cyd-deithwyr, ein meddyliau ein hunain a'n hymateb. Bob tro rydym yn ail-greu'r profiad mae'r

cynnwys yn wahanol a daw'r cyffredin yn rhywbeth arbennig iawn. Rydym yn gallu ei gyfleu gyda rhyw naws, ymddygiad neu deimlad arbennig. Rydym yn ei ddefnyddio i ddatrys ein trafferthion a'n pryderon. Nid edrych am olygfa yn unig rydym ni, ond chwilio am ryw olygfa bersonol, rhywbeth sy'n ein cyffwrdd i'r byw er nad ydym yn ymwybodol o hynny ar y pryd.

Cyn pen dim roeddwn ar y copa. Roedd yna wynt ddigon oer yma, ond ni ddaeth y glaw. Roedd fy ngolygon ar Foelydd de Clwyd - Moel Llanfair, Moel Gyw, Moel Eithinen, cyn belled â, ymhell i'r dde, y lle uchaf ar Fryniau Clwyd, sef Moel Famau. Yn wobwr am fy holl ymdrech, daeth yr haul gan newid yr olygfa'n llwyr. Roeddwn innau'n ôl ar y llwybr unwaith eto, ac efallai bydd amser am beint yn Nhafarn y Derwyddon.

Mae'r daith gerdded i Fryn Alun yn cychwyn yng nghilfan Plymog, i'r gorllewin o bentref Llanferres. Cyf. Grid SJ 187 598.

Dyma olygfeydd gwych eraill o Fryniau Clwyd.

- ▶ Pen Moel Famau, lle uchaf yr ardal.
- ▶ Caer Penycloddiau gan edrych tua'r de a'r gorllewin tua'r Dyffryn
- ▶ O'r ffordd B5105, rhwng Rhuthun a Chlawdd Newydd.

Beth am eich hoff olygfa chithau?



Gwen Evans

Cyhoeddir tua chwech o bapurau Bro yn fisol yn yr ardal, sy'n derbyn newyddion ac erthyglau o ardaloedd yr Wyddgrug (Papur Fama), Rhuthun (y Bedol) Dinbych (y Bigwn) a'r Gadlas i'r gogledd a'r Clawdd i'r de, hefyd ceir papur bro ar gyfer yr arfordir. Gwirfoddolwyr yw'r holl gyfranwyr a'r golygyddion. Mewn rhai pentrefi tyfodd traddodiad o 'blygu' papur bro a'i lapio mewn rhyw neuadd wahanol bob mis er mwyn i bobl yr ardal gael cyfle i gymdeithasu, a'r bore wedyn caiff y papurau eu hanfon i bob cwr o'r byd. Croesewir pawb i'r gwaith 'plygu'.

Parha'r traddodiad eisteddfodol yn gryf yn yr ardal AHNE. Ceir eisteddfodau cadeiriol yn flynyddol yn Nhreuddyn ac yn Llandymog Phwllglas sy'n denu cystadleuwyr o'r AHNE ac o bell. Cystadlaethau ar gyfer plant ac oedolion yw'r rhain, a bydd rhai wrthi tan yr oriau mân. Mae Eisteddfodau lleol yr Urdd yn ffynnu yn yr ardal, gyda nifer o bobl yn gweithio'n galed dros ben i'w cynnal. Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn cael ei chynnal yn rhywle gwahanol bob blwyddyn ac eleni Sir Ddinbych yw'r lleoliad, yn Rhuthun ar ymylon yr AHNE.

Mae cangen weithgar o Ferched y Wawr, sefydliad i ferched, mewn nifer o bentrefi, ac estynnir gwahoddiad cynnes i ddysgwyr ymaelodi ynddynt.

Byddai'r golygyddion yn gwerthfawrogi derbyn unrhyw wybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg a dwyieithog a gynhelir yn AHNE Bryniau Clwyd - Felly diolch ichi am anfon cyfraniadau, neu sylwadau a syniadau i'w cynnwys mewn colofn fel hon yn y dyfodol.





Mynd â'ch gwynt...

- ▶ Llwybrau ar gyfer beicwyr mynydd o bob gallu
- ▶ Mapiau i'w llwytho i lawr
- ▶ Cyfleusterau i feicwyr
- ▶ Hedfan yn y 3D
- ▶ Llety
- ▶ Newyddion a digwyddiadau

www.beiciobryniauclwyd.com



PARC GWLEDIG
Loggerheads




Taith drwy'r coed, ymlacio ar lan afon, golygfeydd syfrdanol o'r creigiau calch a chyfoeth o hanes a bywyd gwyllt.

- ▶ Hwyl i bawb
- ▶ Canolfan Cefn Gwlad rhyng weithiol
- ▶ Llwybrau darganfod
- ▶ Caffi a siop yr awyr agored



01352 810614
loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

www.borderlands.co.uk



Gwestai, Gwely a Brecwast a llety hunan arlwyio

Lleoedd i ymweld â nhw a nherhau i'w gwneud

Gogledd Ddwyrain Cymru

www.rhyl-prestatyn.co.uk

Pan fyddwch chi'n ymweld â AHNE Loggerheads a Moel Famau ewch i weld

www.loggerheads-wales.co.uk



I gael rhestr o leoedd i aros a phethau i wneud a gweld.

Parc Gwledig Moel Famau a Choed Moel Famau



- ▶ Teithiau cerdded gwych i bawb
- ▶ Digon o le i barcio
- ▶ Golygfeydd gwych
- ▶ Llwybrau gwastad, wyneb caled sy'n addas i bawb
- ▶ Mynediad i Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa

www.forestry.gov.uk

Ewch i www.sirddinbych.gov.uk i lwytho taflen i lawr neu ffoniwch **01352 810614**

Un o adegau hyfrydaf fy mywyd oedd cael y cyfle yn ddiweddar i ail fyw cyfnod fy mhientyndod a dreuliais yng Ngholomendy, ger Loggerheads. Sefydlwyd grŵp aduniad i'r preswylwyr yn 1990. Euthum i letya yng Ngholomendy yn 1956 pan roeddwn i newydd gael fy nhair ar ddeg oed. Gallaf ddweud yn onest fod y ddwy flynedd hynny wedi gadael llawer iawn o atgofion melyn.

Fe'm ganed ac fe'm maged yn Lerpwl. Roedd deg ohonom yn y teulu pan gafodd fy nhad ganser a bu rhaid i Mam ei nyrsio. Awgrymwyd y dylai pedwar plentyn ieuengaf y teulu fynd i Golomendy i ysgafnhau'r baich ar Mam. Fi oedd y cyntaf i fynd, a'r brodyr wedyn. Dwi'n meddwl mai arbrofi roeddwn i fod i wneud.

Yr wythnosau cyntaf, roeddwn i'n hiraethu'n arw am fy nghartref, ond buan iawn y gwnes i ffrindiau, ac fe barhaodd y cyfeillgarwch am oes. Ar y pryd roeddwn i'n ddarlennydd selog o lyfrau Enid Blyton a seiliais fy syniadau o ysgol breswyl ar helyntion 'Mallory Towers!' Dyna fraw imi pan welais yr ystafelloedd cysgu pren. Ond yn fuan iawn fe dderbyniais y ffordd hon o fyw, a darganfod fy mod i'n berson yr awyr agored. Roeddwn wedi hoffi chwaraeon erioed a nŵ an roeddwn i'n darganfod fod cerdded yn y wlad yn brofiad gwych. Fy hoff droeon oedd ar hyd y Leete i'r bont haearn, dros ben Llwybr y Gath, a'r Graig. Yna roedd y daith ar ffyrdd y wlad i Eglwys Llanferres ar ddydd Sul a'r dro i fyny Moel Famau ar ddiwedd tymor. Roeddwn wrth fy modd mewn unrhyw dywydd, yn law, cenillysg neu'n eira.

Mewn un o'r cyfarfodydd aduniad gofynnodd rhywun imi a oeddwn yn ymwybodol o'r holl harddwch

Colomendy 1959



■ Rita Sharp, Lerpwl

oedd o amgylch pan roeddwn i'n blentyn. Chwerthin gwnes innau, 'Nag oedd, mae'n debyg' meddwn i. Ond ar ôl meddwl, gofynnais 'Ai ei gymryd yn ganiataol roeddwn i tybed?' Roeddwn ar fainc garreg yn y gwersyll isaf heb fod ymheli o'r ystafell gysgu. Roeddwn wedi cysgu'n hwyr pan gyrhaeddais am y tro cyntaf. Wrth eistedd, dyma fi'n cofio'r adeg honno pan ddeffrois innau'n gynnar, codi o'r gwely, a mynd allan i'r buarth chwarae. Doedd yr haul heb godi. Roedd y buarth chwarae'n edrych yn wahanol. Es i'r lle uchaf a lapio fy mreichiau am fy mhengliniau i edrych ar yr haul yn codi dros y mynydd a'r coed ac yntau'n fy nharo innau wrth imi eistedd yno. Dwi'n cofio teimlo'n ddiolchgar dros ben mai hwn oedd fy nghartref.

Wrth eistedd ar y fainc honno, daeth atgofion am fynd adre i Lerpwl a sylwi pa mor dywyll a chul roedd ein stryd ni. Roedd rhyw wedd wahanol ar y tai, yn uchel ac yn fygythiol uwch fy mhen. Ond nid oedd fy mywyd yn anhapus a buan iawn y deuthum yn gyfarwydd â swm y traffig yn lle swm adar. Mi rydw i'n cyfrif fy hun yn anhygoel o ffodus fy mod wedi cael treulio adeg fwyaf ffurfiannol fy mywyd yng Ngholomendy.

Grŵp aduno yw'r 'Colomendy Connection'. Sefydlwyd 16 o flynyddoedd yn ol er mwyn i bobl oedd yn aros yng Ngholomendy rhwng 1940 a 1969 allu hel atgofion. Os fuoch chi'n aros yng Ngholomendy yn ystod y cyfnod hwn pan roedd yma cytiau pren a rhedeg i molchi, yna ysgrifennwch i 29 Darby Rd, Grassendale, Liverpool L19 9BP.

Gallwch weld casgliad o luniau a chardiau post o Loggerheads o ddechrau'r 1900au yng Nghanolfan Cefn Gwlad Loggerheads.



Gwybodaeth am deithiau cerdded, digwyddiadau, y Parc Cefn Gwlad, bioamrywiaeth, a hanes Cefn Gwlad Sir Ddinbych ichi'u llwytho i lawr o

www.denbighshire.gov.uk/countryside



Heb feic heb fyw...

Stori un sy'n dechrau...



Dyma ni felly! Roeddwn wedi siarad amdano a daeth yr amser o'r diwedd i wneud rhywbeth. Ofn, cyffro a disgwyl oedd y teimladau wrth imi ffidlan gyda'r brêc a symud y gêrs er mwyn cogio mod i'n deall. 'Allith o ddim bod yn anodd iawn', meddai finnu, 'y gamp beicio mynydd yma'. O'r diwedd roeddwn wedi camu i sêr y beic mynydd ar ôl tindroi a hel esgusodion am fisoedd i osgoi mynd ar daith 8km ar feic o gwmpas y llwybrau hynny a luniwyd at y pwrpas yng Nghoedwig Llandegla. Cefais y bregeth ddiogelwch gan Jim, edrych ar y beic am unrhyw beth o'i le (dim byd), dangos imi sut i newid y gêrs a thynnu'r brêcs a rhoi helmed yn fy llaw. Doedd dim amdani rŵan ond cychwyn arni, dyma fi'n simsan igam ogamu dros y maes parcio ar ddechrau'r llwybrau beicio.

Yn serth i gychwyn, ond roedd Jim yma i fy sicrhau mai hwn oedd y darn anoddaf a'i fod yn dod i ben yn fuan iawn. Ac mi roedd Jim yn llygad ei le. Roedd y darn yn anodd a serth ond yn fyr a dyma finnu'n codi sbîd yn fuan iawn ar



llwybr braf llydan sy'n dringo'n raddol a threiddio'n ddwfn i goedwig Llandegla. Mae'r llwybr yma wedi'u gwneud ar gyfer beiciau mynydd. Allwch chi ddim mynd ar goll yma am fod yma saethau o liwiau gwahanol o gwmpas y llwybr sy'n dangos y cyfeiriad iawn ichi. Ond os rydych chi'n poeni am fynd ar goll mae yma fap ichi'i gario.



Roeddwn i'n dechrau ei deall hi erbyn hyn ac yn dechrau mwynhau'r profiad. Roedd hi wedi bod yn glawio, y llwybrau'n o fudr a digon o olion teiars arnyn nhw. Mewn ffordd od iawn, roedd cael cawod o fwd dros fy nghefn a thu blaen yn rhan o'r profiad a doedd o ddim yn annymunol o gwbl. Dyma fi'n dod at y goedwig! Yn gynharach, roedd Jim wedi bod yn sôn fod y Ganolfan yn tyfu'n lle poblogaidd iawn erbyn hyn, ac yn wir roedd y maes parcio'n llawn y rhan fwyaf o'r amser, a bu miloedd o feicwyr ar y llwybrau ers i'r Ganolfan agor. Roeddwn innau'n dechrau deall pam. Ar ôl tua hanner awr o ddringo graddol, roeddwn wedi cyrraedd pen ucha'r fforest a thybio fy mod yn mynd i lawr yr holl ffordd rŵan.

Dyma fi'n codi spid a bron ar unwaith yn dod ar draws cyfres o dwmpathau ar y ffordd oedd gystal ag unrhyw rollercoaster mewn ffair. Wel, am hwyll! Ymlaen i lawr yr allt wedyn ar gorneli llym a thir anwastad. Doeddwn i ddim yn gwybod yn union lle roeddwn i erbyn hyn ond yn sydyn dyma'r llwybr yn agor allan i ddatgelu golygfeydd gwych dros y rhostiroedd grug a'r wlad hardd. Amser i orffwys ac yfed wrth edrych ar y golygfeydd - popeth yn iawn cyn belled a finnau heb gael codwm, doedd dim sail i fy ofnau am ffitrwydd a thrin y beic. Ar ôl ymlacio dyma fi'n ôl ar gefn y beic ac ymlaen a fi. Ond sôn am siarad yn rhy fuan! Ymddangosodd pant o le'n y byd ac yn sydyn



roeddwn yn sgidio oddi ar y llwybr a thuag at goeden. Yn ffodus, llwyddais i stopio a datod oedd yn glynu at y bariau. Dyna wers imi y dylwn fod yn ofalus hyd yn oed ar llwybr y dechreuwyd. Roedd y rhan olaf yn ôl i'r Ganolfan yn wych a minnau'n hedfan i lawr y darn olaf yn wen o glust i glust. Roeddwn yn haeddu paned ac un o fflapjacs enwog mam Jim. Tybed oes digon o olau dydd imi ei wneud unwaith eto? - mae'r busnes beicio mynydd yma'n mynd i'ch gwael chi.

Mae Canolfan Beiciau Llandegla yn hawdd iawn dod o hyd iddo ar A525 rhwng Wrecsam a Rhuthun. Yn y Ganolfan ceir Caffi, siop, gweithdy, ystafelloedd dosbarth, toiledau a lle i olchi beiciau. Ian Owen a Jim Gaffney sy'n rhedeg y ganolfan ar ran y perchnogion, Tilhill Forestry. I gael mwy o wybodaeth gallwch eu ffonio ar 01978 751656; info@oneplanetadventure.co.uk, a gweld eu gwefan; www.oneplanetadventure.co.uk



I weld ble i feicio ar llwybrau ceffylau a ffyrdd gwledig ar hyd a lled Bryniau Clwyd, ewch i www.beiciobryniauclwyd.com. Mae yma lu o ffyrdd gwahanol ar gyfer pobl o bob gallu beicio ichi eu llwytho i lawr a rhestr o leoedd i aros, i yfed ac i fwyta. Ewch i weld Bryniau Clwyd o sedd wahanol.

Bu Bryniau Clwyd yn ysbrydoli pobl ers canrifoedd. Ym mis Medi, mae'r bryniau grug porffor yn olygfa wych ac yn cyhoeddi tro'r tymhorau.

Golygfa ragorol ym mis euraidd Hydref yw'r hen goed mawr cnotiog yn diosg eu dail coch. Mewn gwrthgyferbyniad â'r bryniau gwyllt, ceir y pentrefi cysgodol yn nythu wrth odre'r Bryniau.

Efallai mai'r paentiwr enwocaf i fyw yn yr ardal oedd Richard Wilson, a adnabyddir yn aml fel Tad Paentio Tirluniau ym Mhrydain. Ef, yn ol y sôn, oedd yr ysbrydoliaeth i Constable a Turner. Daeth i aros yn aml iawn efo'i gyfnither Catherine Jones ym Mhlas Colomendy. Bu farw yma yn 1782.

Ond efallai i ardaloedd tawelach yr AHNE ar fryniau'r gogledd - sy'r un mor arbennig - ysbrydoli doniau mwyaf.

Yn Nhremeirchion ceir tirwedd sy'n hudolus gyda'i chefnen o galchfaen yn brigo i'r wyneb, yr ogofeydd, clogwyni, a golygfeydd dros Ddyffryn ffrwythlon Clwyd. Darganfuwyd rhai o'r olion dynol hynaf (35,000 o flynyddoedd) yn ogofeydd Ffynnon Beuno.

Cartref y bardd enwog Gerald Manley Hopkins oedd Coleg Sant Beuno, ar lethr y bryn. Bu yma'n derbyn hyfforddiant i fod yn offeiriad Cymdeithas yr Iesu. Creodd dros draean ei waith aeddfed wrth gerdded, darganfod, a gwylio yn yr ardal hon.

Roedd Felicia Hemans yn fardd poblogaidd yn Lloegr yn oes Fictoria, gan dreulio'r rhan fwyaf o'i hoes ym mhentref y Waen. Ysgrifennodd gerddi poblogaidd ac yn eu plith roedd y gerdd enwog 'Casabianca', a grewyd, yn ôl y sôn, wrth sefyll ar yr hen bont, 'Pont Dafydd' sy dros yr Afon Clwyd. Mae'r llinell gyntaf yn adnabyddus sef, 'The boy stood on the burning deck'.

Tirwedd i'ch ysbrydoli



Howard Sutcliffe & Lorna Jenner

O'r ardal hon hefyd daw'r fforiwr o oes Fictoria - H.M Stanley. John Rowlands oedd ei enw iawn. Cafodd ei adael gan ei fam pan roedd o'n blentyn ifanc i weithio yn Wrcws Llanewly. Yna fe symudodd i fyw gyda'i fodryb yn Ffynnon Beuno cyn iddo adael i fynd i Lerpwl ac wedyn i'r America. Pan roedd yno, bu'n brwydro ar y naill ochr a'r llall ym mwyddau'r Rhyfel Cartref cyn bod yn newyddiadurwr a chael yr orchwyl o ddod o hyd i'r cenhadwr Livingstone oedd ar goll. Yn sicr, ei ieriau enwocaf, yw ei gyfarchiad 'Dr Livingstone, I presume...?' a'r gwaith a wnaeth i greu Talaith Rydd y Congo. Roedd ganddo atgofion melyn o'i fywyd yn Nhremeirchion, gan ysgrifennu am ei hoffter o'r bryniau, yn enwedig Y Graig. Yn ôl rhai, dyma roddodd iddo'r awydd am anturiaethau!

Yn yr ardal hon y magwyd Thomas Pennant, yr enwocaf o deulu o dirfeddianwyr yn Nhremeirchion. Credai mai'r rhodd o lyfr ar ei ben-blwydd yn ddeuddeg oed a'i sbardunodd i ysgrifennu nifer o lyfrau a phapurau ar swoleg. Ond mae'n enwocach am fod yn awdur arloesol oedd yn ysgrifennu am deithiau. Roedd ei lyfr 'Tour of Wales', a ddechreuodd ysgrifennu yn 1773, yn ysgogi dynion ifanc o Saeson i archwilio mynyddoedd Cymru.

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Bryniau Clwyd yn dal i ysbrydoli artistiaid a gwyddonwyr hyd heddiw. Ceir gwaith nifer o

artistiaid lleol mewn orielau yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a thu hwnt. Cadwch eich llygaid ar agor am arwyddion o'r ysbrydoliaeth hwnnw.

Os oes gennych chi unrhyw storïau neu wybodaeth am y bobl a gafodd yr ysbrydoliaeth i gyflawni pethau mawr ar Fryniau Clwyd, y dirwedd, y diwylliant a'r bobl, yna cofiwch ysgrifennu atom.



I gael gwybodaeth am gefn gwlad Cymru gan gynnwys y tir mynediad newydd, a'r cod cefn gwlad i Gymru ewch i wefan Cyngor Cefn Gwlad Cymru

www.ccw.gov.uk
www.clwydianrangeAHNE.org.uk

Gofyn i'r Warden

Ysgogi ieuencid.

Mae fy ngŵr a finnau wrth ein bodd yn cerdded, ond mae'n anodd dros ben i annog fy mhiant sy yn eu harddegau i ddod allan gyda ni. Tybed oes unrhyw syniadau gennych chi ynglŷn â sut i'w hysgogi a'u hargyhoeddi o'r cyffro sy yn y cefn gwlad?



Yn ein rhaglen flynyddol 'O Gwmpas yn Sir Ddinbych' cewch nifer fawr o deithiau cerdded gydag arweinydd, gweithgareddau i'r teulu, a thasgau ymarferol. Mae thema ar gyfer nifer o'n teithiau cerdded, fel dal gwyfynod, hanes, chwedlau am goed ac yn y blaen. Hefyd, mae llwybrau mathemateg a phosau anifeiliaid yng Nghoed Moel Famau a llwybr Rhwbio yn Loggerheads. Efallai bydd hyn yn rhoi pwrpas i gerdded a dangos iddynt y gallant gael eu diddori a darganfod ffeithiau am y wlad o'u cwmmpas.

Nodi'r ffiniau

Rydym yn byw ar gyrion yr AHNE. Mae ein Rhardal ninnau'r un mor hardd. Pam felly nad ydym ninnau o fewn yr ardal a ddynodwyd?

Dynodwyd Bryniau Clwyd yn 1985 ac roedd rhaid gosod ffin swyddogol heb unrhyw amwysedd. Tynnir y llinell ffin ar fap ac mae'n anodd cymhwyso hyn i'r ddaear, felly defnyddir nod fel ffordd neu afon i'w gwneud yn haws dweud ble mae'r ffin hon a beth sydd y tu mewn a'r tu allan iddi.

Cymorth i athrawon

Athro ydw i. Mae gen i ddiddordeb mawr amwedd mewn creu prosiect diddorol yn ein dosbarth am gefn gwlad a'r effaith mae ymwelwyr yn ei gael arno. Ble gallaf gael gwybodaeth am hyn?



Edrychwch ar ein gwefan

www.ahnebryniauclwyd.org.uk. TMae pecyn i athrawon y gallwch ei lwytho i lawr hefyd.

A thafenni gwaith i'w llungopio o

www.sirdinbych.gov.uk/cefnngwlad. Os oes mwy o gwestiynau gennych, yna ffoniwch ein swyddfa ym Mharc Gwledig Loggerheads 01352 810614.

Ariannu ar gyfer cynlluniau AHNE

Mae fy ffrind yn byw yn y plwyf nesaf ataf. Bu'n helpu i ddylunio taflen wych am fywyd gwyllt a hanes y pentref. Rydym ninnau'n byw o fewn yr AHNE a byddai gennym ninnau ddiddordeb cynhyrchu un hefyd. Sut mae gwneud?

Mae Bryniau Clwyd AHNE yn rheoli cronfa ariannol o'r enw Cronfa Datblygiad Cynaliadwy. Gall y cynllun hwn ddarparu 50% o ariannu tuag at brosiect i wella, cefnogi a hyrwyddo'r dirwedd treftadaeth, bioamrywiaeth a diwylliant yr AHNE. Ffoniwch 01352 810614 i gael mwy o wybodaeth.

Llai o faw cŵn

Mae'n wirioneddol dda gen i eich bod yn llymchwr ar berchnogion cŵn sy'n cau glanhau baw'r ci. Roedd cael staff ar y safle i egluro ac i rannu bagiau yn syniad gwyh. Hefyd, roeddwn yn hoffi'r bagiau baw cwn gwyrdd biddiraddadwy roeddech chi'n eu darparu. Ble mae'r rhain i'w cael?

Mae gennym ni fagiau yma yn y Ganolfan Cefn Gwlad, Loggerheads.

Cyfle i helpu eich cefn gwlad.

Mae gen i ddiddordeb gwirioneddol mewn gyrfa sy'n ymwneud â rheoli Cefn Gwlad. Pa gyngor sydd ar gael imi gael cychwyn arni?

Rwyf am wneud rhywbeth adeiladol gyda fy amser hamdden. Rwyf yn frwd am yr awyr agored, ac angen ymarfer hefyd. Sut allaf i helpu gyda gwaith cadwraeth?



Yn sicr, mae gennym ddim o wirfoddolwyr sy'n gweithio'n wirioneddol galed ar bob agwedd o waith cadwraeth o glirio coed a chodi waliau hyd at wneud arolwg o blanhigion a bywyd gwyllt. Yn ein llyfryn 'O Gwmpas yn Sir Ddinbych' mae nifer o ddyddiau gydol y flwyddyn ble gall gwirfoddolwyr gael blas ar beth sy'n digwydd. Unwaith y byddwch yn deall beth sy'n ddiddorol gennych, yna mae gennym raglen lawn 'Rhaglen y Gwirfoddolwyr' sy'n cael ei chyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Ynddi ceir prosiectau tymor hir er mwyn ichi weld yr effaith ryfeddol y gallwn ei gael ar ein cynefin. Ffoniwch 01352 810614 neu ewch i www.ahnebryniauclwyd.org.uk



Beth ydy Cynllun y Grug a'r Bryngaerau?

Clywais bobl yn sôn am y Bid Loteri Treftadaeth a elwir Y Grug a'r Bryngaerau. Beth ydy hwn?



Prosiect ydy'r Grug a'r Caerau sy'n gwarchod archeoleg ac ecoleg y mynydd grug sydd mewn perygl ar Fryniau Clwyd a Mynydd Llantysilio. Bydd yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cynefin arbennig hwn a bydd yn

cysylltu cymunedau â'r beth oedd ar un cyfnod yn rhan hanfodol o'r economi leol. Yn 2003 gwneuthum gais am grant cynllunio prosiect a ddefnyddiwyd i fynd â'r cais rhagddo. Erbyn hyn mae'r Gronfa Loteri Treftadaeth wedi cymeradwyo ein Cais Partneriaeth Tirwedd Cyfnod 1 ar gyfer y prosiect. Golyga hyn bod £1.5 miliwn wedi'i osod o'r neilltu ar gyfer y prosiect a bydd £101K yn cael ei roi i ddatblygu'r bid ymhellach a'n dwyn i Gyfnod 2 a (gobeithio) y gymeradwyaeth derfynol. Os bydd popeth yn mynd yn ôl y cynllun, yna byddwn mewn sefyllfa i gychwyn ar y gwaith ar y ddaear ar ddechrau 2007.



Tafarn Sy'n estyn Cro

Be gewch chi well na thro yn y wlad yn harddwch Bryniau Clwyd a phryd o fwyd i ddilyn mewn tafarn hanesyddol gyda chwrw da a bwyd cartref? Neu hwyrach yr hoffech fwyta'n gyntaf a cherdded wedyn i dreulio'r cwrw a'r cinio blasus.


Mae'r pentrefi o fewn ac o gwmpas Bryniau Clwyd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cynnig dewis rhyfeddol o dafarnau i gyd-fynd â'ch troeon. Dyma rai o'r tafarnau, ond cofiwch fynd i www.ahnebryniauclwyd.org.uk i gael gwybod mwy.

Y Ceffyl Gwyn, Hendrerwydd, ydy'r lle am fwyd da a chynnyrch lleol. Mae yma groeso i gerddwyr yn y bar clud. Yn ystod tywydd cynnes mae yma fyrddau y tu allan. Mae tafarn arall boblogaidd o'r enw'r **Ceffyl Gwyn** yng Nghilcain hefyd gyda bwyd gwych ganol dydd

a gyda'r hwyr saith niwmod yr wythnos (dim plant o dan 14 oed).

Mae gan dafarn y **Three Pigeons** Graigfechan, tafarn y porthmyn ar un adeg, enw da am gwrw cartref. Mae'r **Salisbury Arms** Tremeirchion, yn lle gwych i'r rhai sydd am archwilio rhan ogleddol yr AHNE, sy'n dawelach.

Druid Inn Tafarn y Derwydd sydd yn Llanferres. Ceir yma fwydlen amrywiol a Gwely a Brecwast. Mae yma groeso i feicwyr a cherddwyr. Dyma fan cychwyn ar gyfer Taith



eso i Gerddwyr

■ Lorna Jenner, Cilcain

Galwyn sy'n ymweld ag wyth o dafarnau lleol mewn noson. Os allwch chi ddelio â hynny, prynwch daflen am y daith o'r dafarn ei hunan - Dau beint a thro - i roi sbardun ichi ar eich ffordd.

Taith Gylchol

Loggerheads/Moel Findeg circuit

Pellter: 8km / 5 milltir **Amser:** Caniatáu 3.5orïau

Parcio a chychwyn: Maes parcio Parc Cefn Gwlad Loggerheads (Cyf Grid. SJ 198626)

Graddfa: Cymedrol (peth dringo graddol), nifer o gamfeydd

Cyfleusterau: **Canolfan Ymwelwyr**, caffi, toiledau yn Loggerheads. **Tafarn yn Loggerheads, Colomendy a Maeshafn.**

Allwedd - Ch=l'r chwith. Dd= i'r dde. GM=giat mochyn

The Walk

1. O'r Ganolfan Cefn Gwlad cerddwch heibio'r caffi a'r Siop Awyr Agored i groesi pont garreg dros yr Afon Alun. Troi i'r



Dde i fyny'r grisïau. (I fynd i'r olygfan- troi i'r Ch i fyny llwybr bach ar ôl y gris olaf). Ar ben y grisïau ewch ymlaen i'r gyffordd T. Troi i'r Dd a mynd ymlaen ar hyd y llwybr i'r briffordd. Troi i'r Ch i weld y Garreg Ffin. (Man cychwyn arall, i osgoi'r grisïau: Croesi'r bont bren yn ymyl y Ganolfan i ymuno â'r ffordd fawr. Troi i'r Ch ar hyd y ffordd am 400m i'r Garreg Ffin).

2. Croesi'r ffordd a chymryd y llwybr sy gyferbyn, arwydd Maeshafn. Croesi'r giât/camfa, a dilyn y llwybr ag arwydd arno drwy Ganolfan Awyr Agored Colomendy. Wrth y

tai allan, dilynwch y saeth Ch ar hyd y lôn. Troi i'r Ch ar y gyffordd T a dilyn y ffordd gan wyro i'r Ch. Cymryd y fforch Dd, arwydd Glan Alun. Pan fydd y llwybr tarmac yn troi'n sydyn i'r Dd, daliwch ymlaen ar y llwybr glaswellt i groesi'r gamfa/giât. Dilyn y llwybr dros y cae, heibio'r gamfa ddiangen, i'r gamfa weladwy ar ymyl y llwyn. Croesi i mewn i'r coed a dilyn y llwybr i'r Dd. Croesi camfa a throi ar unwaith i'r Ch i fyny'r allt. Mynd i'r Ch pan fydd y llwybr yn fforchio a drwy'r giât mochyn (GM) a pharhau ymlaen. Wrth y postyn arwydd, troi i'r Ch i fyny'r bryn i'r GM. Mynd drwy'r GM, troi i'r Dd i'r postyn arwydd, yna i'r Ch i fyny'r llethr. Gwyo'n groesgornel i'r Dd drwy'r bwlch i ymuno â lôn suddedig. Ymlaen ar hyd y lôn sy'n fforchio i'r Ch cyn yr adeiladau i groesi'r gamfa risiau yn ymyl y giât. Dilyn y lôn rhwng y tai i bentref Maeshafn, gyferbyn â'r **Miner's Arms**.

*Adeilad isel, hir yw'r
The Miner's Arms, Maeshafn
a adeiladwyd yn yr 1700au.
Fel yr awgryma'r enw mae iddo
gysylltiadau clos â'r diwydiant
mwyngloddio plwm. Dyma lle
roedd y mwynwyr yn cael eu
talw gyda 'thali' yn hytrach nag
arian, a dim ond yn siopau
perchnogion y gloddfa
roeddynt yn gallu'u gwario.
Ar un adeg bwthyn
mwyngloddwr oedd yr ystafell
fwyta sy'r tu ôl i'r lle tân, a lle
i gadw deinameit oedd yr
adeilad sy gyferbyn â'r
maes parcio.*

*Bu'r adeilad hwn yn dafarndy
am gan mlynedd. Roedd y
bragdy gwreiddiol y drws
nesaf. Roedd rhyw saith neu wyth tafarn yn y pentref,
nid rhai traddodiadol fel rydym ni'n meddwl amdanynt oedd
y rhain, ond ystafell mewn bwthyn neu siop oedd yn
gwerthu cwrw.*

*Mae'r tafarnwyr yn croesawu cerddwyr ac mae'r bwyty'n
cynnig dewis helaeth o gynnyrch lleol a the, coffi a byrbryd.
Mae dewis da o fyrbrydau wrth y bar, a bwydlen i blant.
Mae'r tafarndy ar agor saith niwrnod yr wythnos,
ac eithrio ar nos Sul a nos Lun. Ffoniwch 01352 810464.*

Tafarn sy'n estyn Croeso i Gerddwyr



3. Troi i'r Ch ar hyd y ffordd ac i'r Ch wrth y gyffordd. Troi i'r Dd ar hyd y ffordd a heibio Tŷ Newydd yna i'r Dd drwy'r GM i Warchodfa Natur Moel Findeg. Dilyn y llwybr ar i fyny a phan fydd y llwybr yn fforchio, cymryd y fforch Ch. Croesi'r gamfa ac ymlaen ar hyd y gefnen (golygfeydd gwych). Yna disgyn i'r Dd i ymuno â llwybr sy yn union y tu hwnt i'r mast. Ewch i'r Ch heibio'r coed ac ymlaen i lawr tua'r fferm, croesi'r gamfa/ giât. Ymlaen tuag ochr chwith llyn bychan, croesi 2 gamfa at y lôn. Troi i'r Dd ac, ar ôl 40m, i'r Ch drwy'r giât wrth Haulfryn. Dilyn y llwybr llydan drwy'r giât arall wrth hen wagen rheilffordd, ac ymlaen heibio'r creigiau calchfaen a dros y gamfa sy ar y Ch. Ewch yn groesgornel i'r Dd dros dir agored, i lawr heibio hen weithfeydd i groesi'r gamfa sy ar y Ch. Ar hyd y llwybr i lawr drwy'r coed. Troi i'r Dd nes cyrraedd yr A494 gyda Thafarn yr Enfys ar eich LIDd.

4. Croeswch y ffordd ac ymlaen ar hyd y llwybr llydan gyferbyn. Ewch drwy'r giât wrth y grid ac ymlaen i fyny'r llwybr llydan. Ar ôl 1km, yn union cyn y tŷ, troi i'r Ch a dros y gamfa. Dilyn wal gerrig ar y LIDd a mynd drwy'r giât. Troi i'r Ch a dilyn y ffin LICH ar i lawr i groesi'r gamfa sy'n y gornel isaf. Troi i'r Ch ac ymlaen i ymuno â'r llwybr llydan. Troi i'r Ch ac ymlaen am 200m. Yna cymryd y llwybr ar ochr chwith 'Pathside'. Croesi'r gamfa ac ymlaen i lawr y cae i gornel chwith gan groesi'r gamfa ac i'r ffordd. Croesi'r gamfa gyferbyn a dilyn y llwybr i'r Ch am 70m i'r gofeb garreg yn ymyl Ffynnon Deborah sydd ar y LICH.

5. Parhau ar hyd ymyl y llwyn ac, wrth y gamfa sy ar y Ch, troi i'r Dd ac ar i fyny i groesi camfa arall. Dal i gadw'r ffens wifren ar eich LICH.

Croesi'r gamfa ac, ar ôl 15m, gwyo i'r Ch. Ar y fforch, gwyo i'r Dd at yr arwydd, yna troi i'r Ch. Croesi'r gamfa a mynd yn syth ymlaen. Cadwch ar y prif lwybr, gan wyro'n groesgornel i'r Ch yn ymyl llannerch fechan gan gyrraedd cyffordd T. Troi i'r Dd a dilyn llwybr graean ac yna dros y gamfa.

6. Parhau'n syth ymlaen a throi i'r Ch wrth arwydd Cadole, gan ymuno â llwybr llydan. Ar ôl 50m, gwyo i'r Ch i gyrraedd mainc ar y LICH. Troi i'r Dd i lawr grisiau serth at bont garreg. Croesi'r bont a dychwelyd i'r Ganolfan Cefn Gwlad.

